Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

**2016 Rhif 1096 (Cy. 260)**

# CYFRAITH GYFANSODDIADOL

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru at ddiben cynnwys o fewn cynnig Cyllidebol yr adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y cyrff hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 1096 (Cy. 260)

# CYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Tachwedd 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *18 Tachwedd 2016* |
| *Yn dod i rym* | *19 Rhagfyr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

Yn unol ag adran 126A(4) a (6) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys, pan feddyliant fod hynny'n briodol, ac mae'r Trysorlys wedi cydsynio i wneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Rhagfyr 2016.

### Dynodiadau

**2.** Mae corff sydd wedi ei restru yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gorff dynodedig at ddibenion

(**1**) 2006 p. 32. Ychwanegwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â Gweinidogion Cymru(**1**).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
15 Tachwedd 2016

(**1**) Yn rhinwedd adran 124(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Gweinidogion Cymru yn "relevant person" at ddibenion adran 126A o'r Ddeddf honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## YR ATODLEN

Erthygl 2

## Cyrff Dynodedig

Byrddau Iechyd Lleol (fel y'u sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**))

Career Choices Dewis Gyrfa Ltd

Hybu Cig Cymru-Meat Promotion Wales

(**1**) 2006 p. 42.